

# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWDYD AR ZOOM, nos Fercher, Tachwedd 11eg, 2020 am 7.30 o'r gloch

## PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams

## YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Cynhorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Yn anffodus, ni allai Cyng. Alun Jones uno â'r cyfarfod oherwydd nad oes ganddo gyfrifiadur a chafodd Cyng. Wyn Griffiths drafferthion cysylltu.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

### 2. CADARNHAU COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 14eg, 2020 yn gywir ar ôl i'r Clerc ddweud yr anghofwyd cynnwys sylwadau'r Cyngor ar geisiadau cynllunio'r haf – gweler isod.

### 3. EITEMAU BRYD (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ni dderbyniwyd dim.

### 4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Anghofwyd cynnwys y ceisiadau cynllunio a ganlyn yng nghofnodion mis Hydref – ymatebwyd iddynt pan na chynhaliwyd cyfarfod ym misoedd Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi drwy eu hanfon ymlaen at yr Aelodau i dderbyn eu sylwadau, gan na dderbynnir copi papur yn ystod y pandemig:

C19/1157/39/DT	<b>Cais Diwygiedig</b> – Adeiladu estyniad ochr i'r annedd, ynghyd â modurdy dwbl ar wahân – Crib y Gwynt, Lôn Garreg, Mynytho – <b>Cefnogir</b>
C20/0417/39/CR	Gosod canllaw ar y grisiau mewnol – Goleudy Ynys Sant Tudwal (Gorllewin) – <b>Cefnogir [Datgan Diddordeb – OL-J]</b>
C20/0425/39/LL	Codi estyniad – 1 Fferm y Fach, Aber-soch – <b>Cefnogir</b>
C20/0432/39/LL	Newid defnydd arfaethedig o annedd i lety gwely a brecwast yn cynnwys llety i'r perchennog – Hafod, Lôn Gwydryn, Aber-soch – <b>Cefnogir, oherwydd bod gwir angen llety gwely a brecwast yn y</b>

	<p>pentref yn dilyn trosi rhai'n ôl yn dai annedd (yn hytrach na bod popeth yn hunan arlwyyo neu AirB&amp;B) a chan y bwriadau'r perchennog fyw ar y safle. Hefyd, nid oes sicrwydd beth a ddigwydd i Creigle, gyferbyn â Hafod, sy'n un o'r unig ddau lety gwely a brecwast yn y pentref, pe gwerthid hwnnw (ar werth ers misoedd). Awgrymir y dylid cynnwys amod na ddylid ei droi'n fflatiau hefyd [Datgan Diddordeb – EWR]</p>
C20/0441/39/LL	<p>Dymchwel porth presennol a chodi porth/estyniad newydd yn ei le – Tan y Bryn, Sarn Bach – <b>Cefnogir</b></p>
C20/0447/39/LL	<p>Dymchwel ac ailgodi tŷ ar yr un safle – Nyth y Môr, Bwlchtocyn – <b>Cedwir at sylwadau'r cais cyntaf, ynghyd ag ychwanegu un neu ddau, sef cefnogir, er y credir ei fod yn orddatblygiad o'r safle a maint y tŷ presennol (unllawr i ddeulawr) ac y gellid ei weld o'r môr/traeth. Pryderir hefyd am y diffyg manau parcio oherwydd maint bwriadedig y tŷ newydd er y nodir bod lle i ddau neu dri char o fewn y cwrtil. Anghytunir yn llwyr â'r sylw ym mharagraff cyntaf Pwynt 3. Datganiad Dyluniad a Mynediad pan nodir "yr elwa'r safle o hygyrchedd da i'r rhwydwaith ffyrdd...a llwybr bysiau...â chanol y pentref o fewn 800 metr i'r tŷ."</b></p>
C20/0070/39/DT	<p>Estyniad yn cynnwys codi uchder y to – Tŷ Wiggins, 12 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – <b>Cefnogir</b></p>
C20/0499/39/LL	<p>Safle cytiau bugail glampio tymhorol arfaethedig gan gynnwys creu cynefinoedd a gwaith cysylltiedig – Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir, gan gadw at yr un sylwadau a gyflwynwyd â'r cais cyntaf, sef: oherwydd buasant i'w gweld o Lôn Garmon/ffordd Mynytho a Phen y Gaer (fel y pebyll saffari yn Nhy'n y Cae, Llangian) sy'n rhan o Lwybr yr Arfordir ac AHNE. Mynegwyd pryder: a) am y cynnydd mewn trafndiaeth ar ffordd gul (cyffordd-T) sy'n arwain at lôn yr eiddo (a rennir gan eraill), gan mai fesul noson neu ddwy y gosodir cytiau bugail fel arfer; b) pe cyfyd yr angen, am fynediad i'r gwasanaethau brys o ystyried mai barbeciw a thannau coed agored a ddefnyddir; c) am y diffyg goruchwyliaeth a allai fod ar y safle, gan mai tŷ gosod (12+) yw Pant yr Hwch erbyn hyn, yn arbennig gan y bwriedir eu lleoli yn y cae pellaf oddi wrtho ac yng ngolwg tai eraill megis Caerffynnon a Bryn Gwynt. Hefyd, mae'r ffordd yn gul i'r drafnidiaeth sy'n ei thramwyo fel mae a hynod boblogaidd gan gerddwyr a ddefnyddia'r ddau lwybr cyhoeddus sydd arni [Datgan Diddordeb – CLLM]</b></p>
C20/0512/39/DT	<p>Ail-godi modurdy tu cefn i'r annedd – 4 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad o'r safle – mae'n llawer rhy fawr ac am fod yn uwch na'r tŷ. Mynegwyd pryder am yr uchder a gofynnwyd pam bod rhaid i fodurdy fod mor uchel ac angen to brig llechi a ffenestr? Hefyd, mae'n ddechrau cynsail i dai eraill godi 'siediau' a'u troi'n dai/lety ychwanegol maes o law. Yn unol â cheisiadau am adeiladu modurdai, gofynnir am osod amod caniatáu mai modurdy'n unig fydd o. Gwrthwynebwyd y cais blaenorol (C19/0816/39/LL) am sied bren unllawr tu cefn i'r annedd "oherwydd ei fod yn orddatblygiad a fuasai'n gorlenwi safle cyfyng, yn arbennig o gofio y caniatawyd modurdy a storfa yno eisoes. Hefyd, amhara ar olwg cymdogion o'r safle."</b></p>

C20/0522/39/LL	Estyniad i'r ystafelloedd newid presennol – Clwb Golff Aber-soch – <b>Cefnogir</b>
C20/0527/39/DT	Dymchwel adeilad allanol presennol ac adeiladu anecs yn ei le – Bryn Cethin Bach Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Cefnogir ar yr amod na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer ei osod na'i werthu</b>
C20/0529/39/LL	Rhannol ddymchwel estyniad presennol, tynnu to un-llethr ac adeiladu estyniad unllawr newydd â tho brig ar yr edrychiad cefn – Bod Engan, Llanengan – <b>Cefnogir</b>
C20/0535/39/LL	Codi estyniad newydd – Yr Efail, Sarn Bach – <b>Cefnogir</b>
C20/0249/39/TC	<b>Cais Diwygiedig</b> – Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio adeilad presennol at bwrpas storio offer a deunyddiau domestig – Storfa, Cae Arfryn, Mynytho – <b>Cefnogir</b>
C20/0572/39/DT	Codi estyniad unllawr yn lle un presennol – Hyfrydle, Lôn Isaf, Mynytho – <b>Cefnogir</b>
C19/1204/39/LL	<b>Disgrifiad Newydd, Cynlluniau Diwygiedig, Dogfennau Diwygiedig a Gwybodaeth Ychwanegol</b> – Bwriad i greu chwe fflat i'w gosod drwy drosi ac ymestyn y prif adeilad a dymchwel yr annedd presennol i'r cefn o'r safle a chodi blociau llety newydd yn ei le – Venetia, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a chan fod digon o fflatiau ar gael yng nghanol y pentref, ynghyd â dechrau cynsail o droi tai cyfagos yn rai hefyd. Mynegwyd pryder am fynediad i'r briffordd, gan ei fod ger cyffordd brysur yn arbennig yn ystod y tymor gwyliau. Hefyd, mae posibilrwydd y buasai gan bob fflat ddau gar (ac, efallai, gwch/jetski) ac nid oes digon o le parcio ar safle bychan. Gallent, yn ogystal, amharu ar gymdogion o ran sŵn a phreifatrwydd/goredrych. Buasai'n well ei gadw'n westy, gan fod cyn lleied ohonynt yn y pentref ac mae gormod o dai gosod yn y pentref</b>
C20/0528/39/LL	<b>Cais Ôl-weithredol</b> – Creu mynedfa gerbydol a ffordd fynediad newydd – Bwlchtocyn Ffarm, Bwlchtocyn – <b>Gwrthwynebir oherwydd ei leoliad ar ben y bryn ar ffordd gul, brysur yn arbennig yn ystod y tymor gwyliau. Awgrymwyd, pe'i caniateid, rhoi amod gosod cyrban i atal cerrig ddod i'r ffordd</b>
C20/0614/39/DT	Addasiadau a newidiadau, gan gynnwys gosod ffenestri to, cladin allanol a chysgodfan ar gyfer ceir, ynghyd â gwaith tir yn cynnwys codi wal gynnal, creu gofod parcio ac ardal patio newydd – 64 Cae Du, Aber-soch ( <b>Nis anfowyd sylwadau, gan na dderbyniwyd digon</b> ) – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0650/39/LL	Dymchwel y modurdy presennol ac adeiladu estyniad ar ochr yr eiddo ac ymestyn ffenestr gromen bresennol yn y cefn – Tŷ'r Afon, Lôn Engan, Aber-soch – <b>Nis anfowyd sylwadau, gan na dderbyniwyd digon – Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0682/39/DT	Dymchwel y balconi cefn presennol. Codi estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo – 20 Maes Awel, Aber-soch – <b>Gwrthwynebu oherwydd gorddatblygiad a dechrau cynsail yn y stad. Yn ogystal, oherwydd na nodir mesuriadau ar y cais, pryderir am y ffynnon a leolir yng ngardd gefn yr eiddo</b>

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn yn y cyfarfod:

C20/0833/39/LL	Dymchwel modurdy presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys dwy ystafell wely ychwanegol i'w gosod – Hafod, Lôn Gwydryn, Aber-soch – <b>Cefnogir mewn egwyddor ond, dylid gosod amod mai ystafelloedd gorlanw yn unig a fyddant ac na ddylid gwerthu'r adeilad newydd fel tŷ ar wahân [Datgan Diddordeb – EWR]</b>
C20/0835/39/AC	Cais i ddiddymu Amod 3 o Ganiatâd Cynllunio 36/64/371'C' ar gyfer safle carafanau er caniatáu defnyddio carafanau trwy gydol y flwyddyn – Glyn Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd y gallai arwain at droi'r safle'n 'ystâd o gartrefi parhaol newydd' a fuasai'n cynyddu nifer tai haf y gymuned. Hefyd, byddai'n gysail i safleoedd eraill ofyn am ymestyn y cyfnod meddiannu</b>
C20/0849/39/DT	Estyniad gromen ac adnewyddu'r balconi – 83 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad, goredrych a dechrau cysail</b>
C20/0872/39/DT	Codi modurdy ar wahân – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – <b>Cefnogir mewn egwyddor ond, dylid gosod amod mai modurdy'n unig fydd o ac na ddylid gwerthu'r adeilad newydd fel tŷ ar wahân. Hefyd, gofynnwyd pam bod angen dau lawr a ffenestr velux yn y to os mai modurdy yn unig ydyw?</b>
C20/0880/39/DT	Estyniad ochr ac addasiadau – 71 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad er mwyn ehangu tŷ gosod</b>
C20/0883/39/DT	Estyniad llawr cyntaf – Bwthyn y Ffesant, 14 Stad Sant Tudwal, Mynytho – <b>Gwrthwynebir oherwydd nad yw'n gweddu â gweddill tai'r stad</b>
C20/0895/39/LL	Dymchwel modur dai presennol a chodi sied storio newydd – Iard Creigir Wen, Lôn Engan, Aber-soch – <b>Cefnogir</b>
C20/0896/39/DT	Codi estyniad ochr deulawr a phorth – 274 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygu mewn lle cyfyng yng nghanol rhes o dai ar wahân</b>

## 5. MATERION YN CODI

- a) **12. Ysgol Aber-soch**  
Penderfynu parhau â'r bwriad o ymgynghori ar gau'r ysgol wnaeth Cabinet y Cyngor er gwaethaf cais gan y Pwyllgor Craffu i'w ailystyried oherwydd y pandemig.
- b) **13. Gwefan y Cyngor – Cydymffurfio â'r Rheolau Newydd**  
Cadarnhaodd Delwedd y bwriada ddechrau weithio ar y wefan newydd ar Fawrth 1af, 2021 – mae'r cwmni'n eithriadol o brysur.
- c) **16. Gohebiaeth: ff) Cyngor Cymuned Llanllyfni – Yr Wyddfa**  
Diolchwyd am y gefnogaeth. Eglurwyd y penderfynodd Cyngor Gwynedd, mewn cydweithrediad â Pharc Cenedlaethol Eryri, ymchwilio i'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr sy'n ymweld â rhannau o'r Parc, yn arbennig felly ar ac o amgylch yr Wyddfa ei hun. Penderfynwyd cytuno â'r cais o anfon llythyr.
- ch) **16. Gohebiaeth: ng) O Ddrws i Ddrws – Cais am Gyfraniad at Gario Cleifion i Apwyntiadau Meddygol a Gwahoddiad i Ymuno â'r Bwrdd Rheoli**  
Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad o faint o'r gymuned hon a ddefnyddiodd y gwasanaeth cyn penderfynu ar swm i'w gyfrannu.

- d) **16. Gohebiaeth: h) Cyngor Cymuned Aberdaron – Meddygfa Rhydbach**  
Anfonwyd llythyr yn mynegi pryder am safon y gwasanaeth a geir o'r uchod o ran trefnu apwyntiadau. Mynegwyd siomedigaeth ac anfodlonrwydd hefyd â'r hysbyseb uniaith Saesneg a ymddangosodd ar y cyfryngau cymdeithasol am feddyg newydd, yn arbennig y cymal "nad yw siarad Cymraeg yn hanfodol, gan eu bod yn siarad Saesneg". Ychwanegwyd pryder, hefyd, nad yw pob derbynnydd yn ddwyieithog ychwaith.

## 6. MYNWENT Y BWLCH

- a) **Arwyddion Ysbwriel**  
Ni lwyddwyd paratoi arwydd ar gyfer gofyn am amcanbris. Mynegwyd, hefyd, y dylai'r Henaduriaeth osod un yn yr hen fynwent, gan nad yw'n gyfrifoldeb y Cyngor eto.
- b) **Trosglwyddo Mynwent y Capel**  
Ysgrifennwyd at yr Henaduriaeth i ddweud fod y Cyngor yn fodlon derbyn meddiant o'r Fynwent ar yr amod y derbynnir cyfraniad at ei chynnal a'i chadw am ddeng mlynedd.

## 7. MATERION CYLLIDOL

- a) **Cyflenwad Trydan Toiledau Lôn Traeth**  
Derbyniwyd gwybodaeth mai dim ond un cwmni (EDF Energy) fyddai ar gael i gyflenwi trydan y toiledau oherwydd y defnydd isel sydd yno oddi wrth Business Utility Renewals, sef cytundeb tair blynedd sefydlog (rhoddir gostyngiad o 7% am dalu debyd uniongyrchol sefydlog misol) – Ffi Sefydlog 23.25c y dydd a'r Uned 17.763c kwh; penderfynwyd ei dderbyn. Daw'r cytundeb presennol ag E-on i ben ym mis Mai 2021.
- b) **Mainc Cae Chwarae Mynytho**  
Archebwyd y fainc newydd.
- c) **Meinciau Solar**  
Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth asiant yn cynnig, os oeddent yn dal ar gael, ddwy fainc am bris rhatach (llai costau danfon sy'n gallu bod yn uchel iawn gan mai dod o Groatia maen nhw) oherwydd y caeir yr ystafell arddangos a agorwyd ychydig cyn y clo mawr yn Llundain.
- ch) **Cyllideb 2021 – 2022**  
Dosbarthwyd copi o'r un bresennol i bawb cyn y cyfarfod ond, penderfynwyd ei thrafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- d) **Llif Arian, Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol 2020 – 2021**  
Dosbarthwyd copi o'r llif arian i bawb cyn y cyfarfod ac aethpwyd trwyddo, ynghyd â'r asesiad risg a'r arbrawf rheolaeth ariannol – derbyniwyd y cwbl ac fe'u harwyddir gan y Cadeirydd a'r Clerc.
- dd) **Archwiliad Ariannol 2019 – 2020**  
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth oddi wrth BDO hyd yma felly, bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig i'w chymeradwyo cyn Tachwedd 30ain.

- e) **Coed Nadolig**  
Archebir tair fel arfer ar gyfer Aber-soch, Mynytho a Sarn Bach.

## 8. **MATERION CYNLLUNIO**

- a) **Dilyn a Darganfod**  
Deil y trafferthion â Dilyn a Darganfod – delia’r Adran Dechnoleg Gwybodaeth â’r broblem erbyn hyn.
- b) **Llythyr a Datganiad Cyngor Tref Nefyn ar Ail Gartrefi**  
Anfonwyd gair o gefnogaeth at yr uchod ac ychwanegu yr anfonir copi o lythyr y Cyngor hwn at bawb maes o law.
- c) **Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Newid Defnydd Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Mân-werthu**  
Anfonwyd copi ymlaen at yr Aelodau – daw’r ymgynghoriad i ben ar Dachwedd 27ain.

## 9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

- a) **Arwyddion Haearn Bwrw**  
Nodwyd bod angen ailbaentio arwydd Sarn Bach – angen pris a phaentiwr.

## 10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

- a) **Torri’r Llwybrau**  
Derbyniwyd yr ad-daliad ychwanegol am ail-dorri’r llwybrau (gweler 17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

## 11. **TRAETHAU**

- a) **Jetskis**  
Penderfynwyd cefnogi bwriad Cyngor Gwynedd o geisio annog Llywodraeth San Steffan i wneud cofrestru, yswiriant a phrofi gyrru jetskis yn orfodol.
- b) **Toiled Eco**  
Anfonwyd manylion yr uchod at bawb ar ôl gweld hysbyseb yn un o’r cylchgronau a dderbynnir. Yn anffodus, mae’n rhy fach o ran capasiti i’w leoli ym Mhorth Neigwl oherwydd y niferoedd ddaw yno.

## 12. **CIOSG BT STRYD FAWR, ABER-SOCH**

Ni lwyddwyd holi am brisiau diffribiliwr cyn heno – gwneir erbyn cyfarfod mis Rhagfyr.

## 13. **ARWYDDBYST PREN**

Dosbarthwyd copi o’r ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Sioned Mair Williams, arlunydd o Aberdaron, am yr arwyddion i bawb cyn y cyfarfod; hoffai pawb yr arwyddbyst a phenderfynwyd trefnu trafodaeth bellach â hi.

14. **SEDD WAG WARD ABER-SOCH**

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddo Cyng. Dylan Llwyd oherwydd gofynion teuluol. Ysgrifennir ato i ddiolch am ei wasanaeth yn ystod y pedair blynedd a hanner diwethaf. O ganlyniad i'w ymddiswyddiad, mae angen cynrychiolydd o'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Foel Gron – cytunodd Cyng. Edward O. Griffith ymgymryd â'r swydd; hysbysir y Pennaeth. Hysbyswyd y Swyddog Cofrestru a derbyniwyd hysbyseb am sedd wag achlysurol.

15. **CYNNIG CYNG. ERFYL W. ROBERTS**

Eglurodd EWR ei gynnig – cysylltodd â Phrifathro Ysgol Botwnnog i holi faint o blant llai ffodus sydd yn yr ysgol heb gyfrifiadur (deallwyd bod chwe theulu) pan addysgwyd plant gartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Yn dilyn y sgwrs, awgrymwyd efallai y gellid prynu cyfrifiaduron (tua £300.00 yr un) i Lyfrgell yr Ysgol yn hytrach nag i'r teuluoedd unigol fel eu bod ar fenthg iddynt wedyn. Cefnogwyd y cynnig a phenderfynwyd prynu dau gyfrifiadur a chysylltu â chynghorau eraill Pen Llŷn i'w gwahodd hwy brynu/gyfrannu at y gweddill.

16. **GOHEBIAETH**

- a) **Cydlynnydd Partneriaethau Natur Lleol Gwynedd – Tir Mynytho**  
Cais i gyfarfod dros y we oddi wrth y Cydlynnydd, Elis Smits, a Joanna Porter, Swyddog RSPB/Plantlife, i drafod Llain y Pentref o flaen Ysgol Foel Gron. Credant bod potensial i'w droi'n weigrlodd blodau gwyllt; penderfynwyd cytuno cael sgwrs.
- b) **Cymunedau Prosiect Eden – Ymateb Gweithredu Cymunedol**  
Gwybodaeth am adnoddau dwyieithog i hybu a chefnogi cymunedau lleol yn ystod y pandemig.
- c) **Repair Cafe Wales – Cronfa £13.2m Atgyweirio ac Ailddefnyddio**  
Gwahoddiad i ymgeisio am gyfraniad o'r gronfa i gefnogi digwyddiadau atgyweirio ac ailddefnyddio Llywodraeth Cymru cyn Rhagfyr 1af.

17. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C20/0249/39/TC	Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio adeilad presennol at bwrpas storio offer a deunyddiau domestig – Storfa, Cae Arfryn, Mynytho – <b>Caniatawyd y Dystysgrif Gyfreithlon yn unig</b>
C20/0374/39/DT	Dymchwel annedd presennol a chodi un newydd yn ei le – Leeward, Lôn Pen Ceir, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0499/39/LL	Safle cytiau bugail glampio tymhorol arfaethedig gan gynnwys creu cynefinoedd a gwaith cysylltiedig – Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0512/39/LL	Ailgodi modurdy tu cefn i'r annedd – 4 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0535/39/LL	Codi estyniad newydd – Yr Efail, Sarn Bach – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0682/39/DT	Dymchwel y balconi cefn presennol a chodi esgyniad deulawr yng nghefn yr eiddo – 20 Maes Awel, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0701/39/LL	Cais cynllunio llawn ar gyfer gosod canopi teras allanol i ddarparu man eistedd awyr agored dan do ym mwyty traeth – Sandbar

	Beachside Restaurant, The Warren, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0713/39/LL	Adeilad ffrâm porth arfaethedig (ymddangosiad amaethyddol) fel storfa dan do ar gyfer offer cynnal a chadw parc gwyliau – Bryn Cethin Bach Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0729/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C19/0119/39/LL er galluogi ystafell ardd i'r anecs a ganiatawyd – Cefn, Llanengan – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0746/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C15/0904/39/LL er mwyn caniatáu mân newidiadau i ddyluniad y tŷ – Deucoch Hotel, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0781/39/DA	Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy Ganiatâd Cynllunio C19/1005/39/LL ar gyfer dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd, ynghyd â dec er mwyn caniatáu maint ychydig yn fwy i'r datblygiad – Cwt Glan y Môr, Traeth Marchroes, Bwlchtocyn – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0834/39/DA	Diwygiad ansylweddol i gynlluniau trwy Ganiatâd Cynllun C20/0299/39/DT er mwyn galluogi ymestyn y balconi – 227 Cae Du, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>

## 17. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

### Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Tachwedd (Rh/S 002316) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Melfyn Pritchard – £1302.03 (Rh/S 002315 – Paentio Offer Sglefryrddio Cae Chwarae Aber-soch a Lloches Bws Parciau Mynytho)
- b) E-on – £105.79 (D/U – Cyflenwad Trydan mis Medi (£40.18), Hydref (£38.77) a Thachwedd (£26.84) y Toiledau)
- c) R.W. Griffith – £750.00 (Rh/S 002317 – Torri Gwellt Tir y Cyngor yn Aber-soch)
- ch) Cyngor Gwynedd – £204.00 (Rh/S 002318 – Archwiliad Mewnol)
- d) Eglwysi Llanengan a Llangian – £1800.00 (Rh/S 002319 – Cyfraniad at Gynnal a Chadw'r Mynwentydd)
- dd) Talafon Cyf. – £125.00 (S/O – Cyfraniad at Drydan TCC)

### Derbyniadau

- a) Toiledau – £9.00 (Tâl Mynediad)
- b) Cyngor Gwynedd – £1130.00 (Ail Ad-daliad Torri'r Llwybrau 2020)

## 18. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher, Rhagfyr 9fed, 2020 am 7.45 o'r gloch ar **Zoom**